*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **15 Mehefin 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Siarter Archwilio Mewnol 2026/27** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 i'r Aelodau.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) sefydlu trefniadau ar gyfer archwilio systemau rheoli. Fel y darparwr archwilio mewnol penodedig, rhaid i MIAA, gydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang i'r graddau y maent yn berthnasol i'r sector cyhoeddus.

3 Fel rhan o'r gofyniad hwn, rhaid i MIAA, gynhyrchu Siarter Archwilio Mewnol sy'n cadarnhau pwrpas archwilio mewnol, ei fandad a'i gyfrifoldebau. Mae Siarter Archwilio Mewnol 2026/27 wedi'i nodi yn Atodiad 1.

## ARGYMHELLION

4 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi a chymeradwyo Siarter Archwilio Mewnol 2026/27**

## CEFNDIR

5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

6 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ganfyddiadau'r archwiliad.

7 Mae swyddogaeth archwilio mewnol benodedig yr Awdurdod yn cael ei gyflawni gan MIAA y mae ei waith yn cael ei lywodraethu gan y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.

## GWYBODAETH

8 Mae'r Siarter Archwilio Mewnol wedi'i gorfodi trwy Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang ac mae'n ddogfen ffurfiol sy'n diffinio pwrpas, mandad a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol.

9 Mae siarter yr archwiliad mewnol yn sefydlu safle’r gweithgaredd archwilio mewnol o fewn y sefydliad; yn awdurdodi mynediad at gofnodion, personél ac eiddo ffisegol sy’n berthnasol i gyflawni ymrwymiadau; ac yn diffinio cwmpas gweithgareddau archwilio mewnol.

10 Mae'r Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/27 wedi'i nodi yn Atodiad 1.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol sy’n cael eu rheoli’n briodol yn cefnogi’r gwaith o gyflawni’r amcanion llesiant a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r broses ar gyfer pennu cyllideb yn effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Mae adolygu systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Mae arweinydd ymgysylltu MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd trwy’r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae archwiliad mewnol y prosesau ariannol craidd yn cefnogi nodi a rheoli risgiau yn effeithiol. |